

## Cwestiynau Cyffredin – Sesiwn Briffio – Trefniant Lliniaru

### 8 Medi 2020

1. Alla i wirio, ydy dysgwyr yn gallu parhau i ailsefyll ar ôl 16 Tachwedd, ac hyd at 18 Rhagfyr?

Mae angen i ddysgwyr gael eu cofrestru ar wefan ddiogel CBAC erbyn 16 Tachwedd a rhaid i'r holl dystiolaeth gael ei huwchlwytho erbyn 18 Rhagfyr 2020 er mwyn i'r trefniant lliniaru fod yn berthnasol iddynt. Ar ôl y dyddiad hwn, bydd Swyddog Sicrhau Ansawdd Allanol eich canolfan yn cysylltu â'ch canolfan ac yn dechrau cynllunio eich ymweliad Sicrhau Ansawdd Allanol.

Bydd amserlen o ddyddiadau cau ar gyfer y cymhwyster GChDDP Craidd yn cael ei chyhoeddi ar dudalennau Covid 19 DIGC yn fuan.

2. Ar gyfer prentisiaid sy'n cwblhau craidd ac ymarfer, a allwn ddefnyddio'r mesurau lliniaru hyn ar gyfer y craidd, fel y gallwn ni fynd ymlaen i ganolbwyntio ar yr ymarfer ar gyfer gweddill eu prentisiaeth wedyn? Roeddem yn rhagweld y byddai'r elfen graidd wedi'i chwblhau erbyn hyn fel eu bod yn gallu canolbwyntio ar yr ymarfer dros y 10 mis nesaf?

Gallwch, mae'r mesurau lliniaru a amlinellir ar gyfer dysgwyr y mae Covid-19 wedi effeithio'n andwyol arnynt ac sydd i fod i gwblhau eu cymhwyster erbyn 18 Rhagfyr 2020. Mae hyn yn cynnwys fframwaith prentisiaeth, oherwydd bod y cymhwyster craidd ac ymarfer yn cael eu hystyried yn ddau gymhwyster ar wahân.

Mae angen i'r ganolfan gofio bod y rhan fwyaf o'r addysgu a'r dysgu ar draws yr unedau craidd yn digwydd cyn dechrau ar yr asesiadau mewnol ac allanol.

3. Beth sy'n digwydd os nad ydyn nhw'n llwyddo yn yr ymgais ailsefyll erbyn 18 Rhagfyr? Ydyn nhw'n dal ati ac yn cwblhau'r holl asesiadau mewnol ac ati?

Gobeithiwn, drwy bennu'r dyddiad cau o 18 Rhagfyr 2020, y bydd canolfannau'n gweithio tuag at y dyddiad cau hwn ac yn cynllunio asesiadau a chyfleoedd ailsefyll yn amserol. Os bydd canolfan yn wynebu'r broblem hon, rydym yn argymhell eich bod yn cysylltu â'r corff dyfarnu'n uniongyrchol i drafod yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â'r dysgwr. Fodd bynnag, os bydd y dysgwr yn rhoi cynnig ar y banc cwestiynau sawl gwaith heb unrhyw lwyddiant, mae angen adolygu'r daith addysgu a dysgu. Dylai'r ganolfan fod yn hyderus bod y dysgwr yn gymwys ym mhob uned graidd i allu dilyn y trefniant lliniaru.

4. Ydy'r trefniant lliniaru oedd i fod i ddod i ben ar 16 Tachwedd, wedi'i ymestyn i 18 Rhagfyr nawr?

Na, mae'r trefniant lliniaru ar gael i ddysgwyr sydd i fod i gwblhau eu cymwysterau erbyn 18 Rhagfyr. Mae CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gofrestru dysgwyr ymlaen llaw ac amlygu pa ddysgwyr sydd wedi cwblhau ac sy'n barod ar gyfer SAA. Y dyddiad cau ar gyfer hyn yw 16 Tachwedd 2020.

5. Felly dim ailsefyll ar ôl 16 Tachwedd?

Rhaid i ganolfannau gofrestru dysgwyr gyda CBAC erbyn y dyddiad cau sef 16 Tachwedd. Mae gan y ganolfan tan 18 Rhagfyr i uwchlwytho'r dystiolaeth hon yn barod ar gyfer samplu SAA.

6. A oes unrhyw ganllawiau ynghylch pryd y gellir caniatáu lleoliadau gwaith myfyrwyr?

Ar hyn o bryd, does dim canllawiau ar gael ar gyfer lleoliadau gwaith dysgwyr na chyingor ynghylch pryd y gallant ddechrau derbyn dysgwyr ar leoliadau gwaith. Mae City and Guilds a CBAC yn annog canolfannau i gysylltu â lleoliadau cyfredol i gael syniad beth yw'r sefyllfa, ac os nad ydynt yn llwyddiannus, dylent anfon e-bost at DIGC gyda chasgliadau'r ymholiadau hyn ac i fynegi pryder. Rydym yn sylweddoli bod hwn yn gyfnod heriol ac ansicr i golegau addysg bellach a chyflogwyr oherwydd bod y sefyllfa yn un sy'n esblygu ac yn newid ar hyn o bryd.

Rydym wrthi'n adolygu'r sefyllfa hon ac yn deall yr anhawster y mae canolfannau'n ei wynebu wrth leoli dysgwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am unrhyw ddiweddariadau pellach ar dudalennau Covid 19 gwefan DIGC.

7. A ellir defnyddio recordiad ar gyfer trafodaethau proffesiynol?

Mae'r trefniant lliniaru y cytunwyd arno yn caniatáu addasu'r ffordd y gellir cynnal trafodaethau proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio recordiad fideo a sain/ffrydio drwy TEAMS/Zoom/Go to meeting/gweminar. Rhaid i ganolfannau sicrhau bod uniondeb, diogelwch a chyfrinachedd y wybodaeth yn cael eu cadarnhau. Ni ddylai fod unrhyw gynnwys yn y recordiad a fyddai'n mynd yn groes i urddas, preifatrwydd na chyfrinachedd unigolyn, plentyn neu berson ifanc na'u teuluoedd.

8. Rydym yn ei chael yn anodd dod o hyd i leoliadau sy'n derbyn myfyrwyr. Os byddwn yn sicrhau ychydig o leoliadau, sut gallwn ni benderfynu pa fyfyrwyr sy'n cael mynd yno ac felly sy'n cael cwblhau elfen ymarfer eu cymhwyster a pha rai sydd ddim?

Rydym yn annog canolfannau i flaenoriaethu lleoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr a oedd ar y rhaglen yn ystod 2019/20 ac y gwnaeth gohirio'r cymhwyster effeithio arnynt. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod carfan newydd o ddysgwyr lefel 2

wedi dechrau ym mis Medi 2020 y mae angen iddynt hefyd gael mynediad i leoliadau gwaith i symud ymlaen â'u cymwysterau.

Rydym wrthi'n adolygu'r sefyllfa hon ac yn deall yr anhawster y mae canolfannau'n ei wynebu wrth leoli dysgwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am unrhyw ddiweddariadau pellach ar dudalennau Covid 19 gwefan DIGC.

#### 9. A ellir defnyddio ffrydio sain ar gyfer dysgwyr Lefel 5?

Cyfeiriwch at gwestiwn 7 uchod

#### 10. A all y dysgwyr a gwblhaodd Lefel 3 GChDDP symud ymlaen i'r Lefel 4 GChDDP newydd?

Mae'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi ar gyfer Arwain a Rheoli newydd yn gymhwyster gwybodaeth yn unig lle nad oes unrhyw ofynion cofrestru penodol ar ei gyfer ac felly gall dysgwyr symud ymlaen os oes ganddynt Lefel 3 GChDDP.

Mae'r cymhwyster Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr fod yn gweithio o fewn cyd-destun penodol ac felly, waeth beth fo'r cymwysterau a ddelir, rhaid i'r dysgwr fod yn gweithio yn un o'r cyd-destunau canlynol er mwyn symud ymlaen i'r cymhwyster:

- Gweithio gyda theuluoedd a gofalwyr i ddatblygu sgiliau rhianta
- Gweithio gyda phlant ag Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu (SLCN)
- Cydnabod a chefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

#### 11. Beth yw'r sefyllfa os na fydd dysgwr Lefel 2 2019/20 yn cwblhau'r elfen ymarfer erbyn 18 Rhagfyr?

Ein cyngor ar hyn o bryd yw anelu at gwblhau elfen ymarfer y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori erbyn 18 Rhagfyr 2020. Bydd hyn yn caniatáu i'r dysgwr fod yn gymwys ar gyfer gradd asesu canolfannau am elfen theori y cymhwyster. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad oes llawer o gyfleoedd i fynd ar leoliad gwaith ar hyn o bryd ac rydym wrthi'n adolygu ac yn monitro'r sefyllfa hon yn agos iawn.

#### 12. Beth os bydd blaenoriaeth lleoliadau gwaith yn mynd i garfan 2019/20 ond nad ydym yn gallu cael lleoliad gwaith i'r dysgwyr i gyd, beth ddylem ni ei wneud?

Rydym yn annog canolfannau i flaenoriaethu lleoliadau gwaith ar gyfer dysgwyr a oedd ar y rhaglen yn ystod 2019/20 ac y gwnaeth gohirio'r cymhwyster effeithio arnynt. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol bod carfan newydd o ddysgwyr lefel 2 wedi dechrau ym mis Medi 2020 y mae angen iddyn nhw hefyd gael mynediad i leoliadau gwaith i symud ymlaen â'u cymwysterau.

13. Allwch chi gadarnhau bod angen i ddysgwyr sydd am symud ymlaen i gymhwyster Lefel 4 GChDDP Ymarfer Proffesiynol fod â chymhwyster Lefel 3 GChDDP fel a nodir yn y fanyleb ar gyfer Lefel 4 GChDDP Ymarfer Proffesiynol?

Nid yw llawlyfr Lefel 4 Ymarfer Proffesiynol mewn GChDDP yn cyfeirio at unrhyw ofynion cofrestru ar hyn o bryd. Cyfeiriwch at gwestiwn 10 uchod

14. Nid yw'n debygol y byddwn yn gallu sicrhau lleoliad gwaith i BOB dysgwr 2019/20 i'w galluogi i gwblhau'r oriau ymarfer yn ogystal ag asesiadau sy'n weddill erbyn mis Rhagfyr. Beth sy'n digwydd yn y sefyllfa hon os gwelwch yn dda?

Ein cyngor ar hyn o bryd yw anelu at gwblhau elfen ymarfer y cymhwyster Lefel 2 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori erbyn 18 Rhagfyr 2020. Bydd hyn yn caniatáu i'r dysgwr fod yn gymwys ar gyfer gradd asesu canolfannau am elfen theori y cymhwyster. Fodd bynnag, rydym yn ymwybodol nad oes llawer o gyfleoedd i fynd ar leoliad gwaith ar hyn o bryd ac rydym wrthi'n adolygu ac yn monitro'r sefyllfa hon yn agos iawn.

Rydym wrthi'n adolygu'r sefyllfa hon ac yn deall yr anhawster y mae canolfannau'n ei wynebu wrth leoli dysgwyr mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar hyn o bryd. Byddwn yn rhannu gwybodaeth am unrhyw ddiweddariadau pellach ar dudalennau Covid 19 gwefan DIGC.

15. A oes dyddiad ym mis Mehefin ar gyfer yr arholiad?

Oes, mae cyfleoedd arholiadau ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn.

16. Gan gyfeirio at GChDDP Craidd, os yw fy nysgwyr i fod i orffen ym mis Chwefror/Mawrth y flwyddyn nesaf, a oes angen iddyn nhw wneud yr asesiadau Craidd erbyn mis Rhagfyr eleni?

Na, y flwyddyn nesaf y bydd y dysgwyr hyn yn cwblhau, felly maen nhw'n perthyn i'r cyfeiriadau at ganllawiau pob dysgwr arall. Felly, byddant yn cwblhau'r strategaeth asesu lawn ar gyfer yr elfen graidd (3 x astudiaeth achos fewnol ac 1 x cwestiynau dewis lluosog)

17. Uned 330 a 331 ar L3 - pa gyfleoedd sydd ar gael ar gyfer ailsefyll? Ai dim ond 1 cyfle sydd?

Oes, mae cyfleoedd arholiadau ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn. Gall pob dysgwr gofrestru am 1 cyfle ailsefyll fesul cymhwyster.

18. Os yw dysgwyr eisoes wedi'u cofrestru ar gyfer mis Mehefin 2020, a ydym yn eu hail-gofrestru ar gyfer mis Rhagfyr 2020?

Ydych. Bydd angen i chi ail-gofrestru eich dysgwyr ar gyfer y set nesaf o drefniadau lliniaru. Bydd y system ar agor yn fuan.

19. Allwch chi gadarnhau, gan fy mod wedi cael trafferth gyda'r sain, a all dysgwr lefel 5 fynd ymlaen i gymhwyster Lefel 5 newydd gan osgoi'r Lefel 4?

Na – rhaid i ddysgwyr sy'n cwblhau'r L5 newydd gwblhau'r cymhwyster Lefel 4 Paratoi i Arwain a Rheoli newydd yn gyntaf. Yr eithriad i hyn yw i ddysgwyr IGC sydd â'r cymhwyster 'Camu Ymlaen i Reoli' (*Stepping up to Management*).

20. Uned 330/331 – a oes gan ddysgwr gyfle i uwchraddio i radd well?

Oes, mae cyfleoedd arholiadau ar gyfer y cymhwyster Lefel 2 a Lefel 3 Gofal, Chwarae, Dysgu a Datblygiad Plant: Ymarfer a Theori ym mis Ionawr a mis Mehefin bob blwyddyn.